WLAF 31

FFORWM MYNEDIAD LLEOL WRECSAM

COFNODION A GADARNHAWYD

Unfed cyfarfod ar ddeg ar hugain y fforwm a gynhaliwyd yn Ystafell Gynhadledd 3 yn Neuadd y Dref, Wrecsam ddydd Gwener 14 Tachwedd 2008 am 2.00 pm

35/08 PRESENOLDEB AC YMDDIHEURIADAU

Presennol:

CADEIRYDD GWEITHREDOL	YSGRIFENYDDES
Mabyn Pickering	Emma Haldane
AELODAU	**ERAILL**
John Cooper-Poole	Sean Hanratty (CBSW)
Mike Crawshaw	Matthew Ellison (CBSW)
Sue Gittins	Dave Rogers (GMHCG)
John Marchant (CBSW)	Wayne Hughes (CBSW)
Shelagh Roberts	Helen Cook (CBSW)
Gerald Moss	Tim Stratton (Marchog)
Edward Wardle	Jo Hughes (CCP)
Karl Prakel	Carol Bryce (CCP)
	Martin Howorth (CBSW)

Ymddiheuriadau:
Aelodau: Margaret Murphy a Mavis McBride
Eraill: Alun Price CCGC, Peter Cade, Janet Williams

36/08 Gorchmynion Rheoli Cŵn
Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005

Cafwyd cyflwyniad *Power Point* gan Helen Cook, Uwch Swyddog Iechyd yr Amgylchedd a Wayne Hughes, Uwch Swyddog Gorfodaeth yr Amgylchedd ar Orchmynion Rheoli Cŵn, gan gyfeirio at y dilynol:

- Beth yw'r ddeddfwriaeth bresennol
- Deddfwriaeth yr heddlu
- Dewisiadau ar gyfer Gorchmynion Rheoli Cŵn
- Ymgynghori
- Canlyniadau'r ymgynghori
- Crynodeb o fanteision ac anfanteision Gorchmynion Rheoli Cŵn
- Sut y byddai'n cael ei weithredu
- Gorchmynion a argymhellir

Eglurodd Helen fod y Gorchmynion Rheoli Cŵn wedi'u cyflwyno gan s55-67 o Ddeddf Cymdogaethau Glân 2005 <http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2005/50016--i.htm> (DCG) ar 6 Ebrill 2006 ac ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddyletswydd ar Awdurdod Lleol i gyflawni'r gorchmynion hyn. Roedd dyletswydd hefyd ar yr Awdurdod Lleol i ymgynghori ag unrhyw bartïon a allai gael eu heffeithio'n sylweddol gan y Gorchymyn ac y dylai'r Gorchymyn fod yn angenrheidiol ac yn gymesur.

Fel rhan o'r broses ymgynghori, cysylltwyd â chynghorau cymuned lleol a chyrff yr effeithir arnynt yn gofyn am eu barn a chynhaliwyd arolwg cyhoeddus yn y cylchgrawn 'Cyswllt' a oedd yn edrych yn benodol ar:

- Gŵn wrth dennyn mewn lleoedd cyhoeddus fel mynwentydd ac ardaloedd lle mae is-ddeddfau'n bodoli
- Cŵn wrth dennyn pan orchmynnir hynny gan Swyddog ar unrhyw dir yn yr awyr agored y mae gan y cyhoedd fynediad ato.
- Cŵn i'w heithrio o e.e. mannau chwarae plant, amlosgfeydd a meysydd chwaraeon penodedig
- Gorchymyn Cŵn yn Baeddu – y drosedd o fethu â chael gwared â baw cŵn yn unol â deddfwriaeth gyfredol.

Eglurodd Helen y byddid yn ymgynghori ymhellach fel rhan o'r argymhellion cyn cyflwyno'r Gorchmynion Rheoli Cŵn (GRhC) ac y byddent yn canolbwyntio adnoddau ar flaenoriaethau. Byddent hefyd yn monitro ac yn adolygu'r GRhCau mewn dwy flynedd.

37/08 Materion yn Codi o Gofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Awst 2008

15/08 Materion Traws-ffiniol

Roedd Wrecsam yn awyddus i gydweithio'n agosach â FfMLlau eraill. Un awgrym oedd ymuno â gweithgorau i edrych yn benodol ar fater llwybrau trawsffiniol rhwng Wrecsam a siroedd cymdogol. Teimlid y byddai hyn yn fodd o sefydlu cydweithio agosach. Roedd yr ysgrifenyddes wedi ysgrifennu at ysgrifenyddion FfMLl Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Powys a Sir Gaer ac wedi derbyn ymatebion cadarnhaol o Sir Gaer, Powys a Sir Ddinbych.

CYTUNWYD:I gytuno ar y gweithredu yng nghyfarfod nesaf y fforwm newydd ym mis Chwefror 2009

27/08 Adroddiad y Cadeirydd

Gwirfoddolwr Owrtyn

Dywedodd Ken y byddai'n ymddeol o'i waith gwirfoddol yn Owrtyn cyn bo hir a gobeithiai y byddai preswylydd lleol arall yn cymryd at ei waith.

Roedd John yn falch o adrodd fod David Barton wedi gwirfoddoli i gynorthwyo gyda'r gwaith llwybrau yn ardal Owrtyn.

28/08 Aelodaeth FfMLlW

Derbyniwyd 15 cais hyd yn hyn. Teimlai John fod cydbwysedd da rhwng tirfeddianwyr a defnyddwyr. Nid oedd y fforwm wedi derbyn unrhyw gais gan feicwyr.

Gweithred: Ysgrifenyddes i ystyried ffyrdd o hybu diddordeb.

38/08 Grŵp Mynediad i Hamdden Cefn Gwlad (GMHCG)

Cafwyd cyflwyniad gan Dave Rogers am y gwaith a gwblhawyd neu sydd ar fynd ar hyn o bryd.

Eglurodd Dave fod GMHCG yn ceisio datblygu partneriaethau agos gydag awdurdodau priffyrdd i'w cynorthwyo wrth reoli eu rhwydweithiau ac i roi cefnogaeth wirfoddol yn diweddaru cofnodion, trwsio llwybrau a gwneud gwaith cynnal a chadw cyffredinol.

Trefnwyd prosiect i amnewid ac ail-osod rhai o'r trawstiau ar y "Wayfarer' gan GMHCG yn ystod haf 2008. Un broblem ddechreuol oedd dod o hyd i'r trawstiau. Eglurodd fod yr awdurdod wedi cynorthwyo gyda'r prosiect drwy roi 12 trawst i gynorthwyo i drwsio'r trac.
Diolchodd John Marchant i GMHCG, ar ran yr awdurdod, am eu holl waith caled a'u cymorth.

39/08 Adroddiad yr Ysgrifenyddes

- Diolchodd yr ysgrifenyddes i'r aelodau presennol a oedd wedi penderfynu ailymgeisio am le ar y fforwm newydd.
  Eglurodd y byddid yn cynnal cyfweliadau cyn bo hir ac y byddai'n ysgrifennu i gadarnhau gyda hyn.

- Fel rhan o'r Strategaeth Gyfathrebu cynigiodd yr ysgrifenyddes ddyddiadau ar gyfer cyfarfodydd y flwyddyn nesaf, sef:

  Dydd Gwener, 6ed Chwefror yn Ystafell Gynhadledd 3 (cyfarfod cyntaf y fforwm newydd)
  Dydd Iau 7fed Mai – Taith Maes a chyfarfod i ddilyn
  Dydd Iau 6ed Awst – Taith Maes a chyfarfod i ddilyn
  Dydd Gwener, 6ed Tachwedd yn Ystafell Gynhadledd 3
  CYTUNWYD: Amserlen i'w gytuno yn y cyfarfod nesaf

40/08 Mynediad Diogelach i Lwybrau March – Cyflwyniad Tim Stratton

Mynegwyd pryderon yn y cyfarfod blaenorol ynghylch ffyrdd diogelach a mynediad marchogion i lwybrau march gogledd ddwyrain Cymru.
Nododd Tim Stratton amryw o broblemau a rhoddodd gyflwyniad llawn gwybodaeth am ei ddarganfyddiadau gan edrych yn benodol ar:
Cyfleusterau a llwybrau ar gyfer marchogion yn lleol ac yn y siroedd o'n cwmpas;
Ffyrdd prysur 'Mannau Cyfyng';
Peryglon i farchogion fel Mynediad Dall, Gridiau Gwartheg a Giatiau, Arwynebedd Llithrig/Llwybrau Eraill gyda Mynediad i'r Cyhoedd

Dywedodd Matthew Ellison, rheolaeth Cludiant ac Asedau y byddid yn nodi sylwadau a chanfyddiadau Tim ac y byddai'n edrych ar ffyrdd y gallai'r Cyngor gynorthwyo i geisio datrys y problemau a nodwyd gan edrych yn bennaf ar fannau croesi'n ddiogel ar gyfer marchogion / car a cheffyl a thrwy geisio rheoli cyflymder traffig mewn ardaloedd peryglus.

41/08 Cynllun Gwella Hawl Tramwy – Diweddariad

Cadarnhaodd Martin fod yr arian a ddyrannwyd bellach wedi'i dderbyn gan LICC a bod y tîm Hawliau Tramwy'n gweithio'n galed yn ei ddefnyddio ac yn clustnodi prosiectau. Byddai'r Awdurdod yn gobeithio gwneud cais am £60,000 yn flynyddol yn unol â'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.
Byddai'n adrodd eto ym mis Chwefror gan roi gwybod i'r aelodau newydd sut y bydd yr arian yn cael ei wario.

Gorchmynion Addasu'r Map Diffiniol (GAMDau)
Adroddodd Sean fod y tîm yn cadw i'w amserlen ac y byddai 5 wedi'u gorffen erbyn diwedd y flwyddyn gyfredol.
Gofynnodd i'r fforwm benderfynu ar gynnig ar gyfer dolen llwybr march newydd h.y. Mwynglawdd, Dyffryn Moss, Brymbo.
Gweithredu: Mabyn i siarad gyda Sean a Tim Stratton.

42/08 Adroddiad gan y Ceidwaid Mynediad
Cyflwynodd John Marchant adroddiad gan y ceidwaid Allison Whitley, Dave Smith a Sion Roberts am y gwaith sydd ar fynd ar hyn o bryd yn y Sir.

Dywed Alison fod:
- Prosiect Coedpoeth wedi'i orffen a bydd yr arwyddion a'r baneri newydd yn cael eu gosod cyn bo hir. Gwnaed arolwg o brosiect Gwersyllt ac mae rhaglen waith wedi'i pharatoi. Bydd y gwahoddiad i dendro yn mynd i nifer o gontractwyr gwahanol wythnos nesaf a phenderfynir cyn diwedd y flwyddyn pwy fydd yn cael y gwaith.

Dywed Dave fod:
- Y gwaith ar Lwybr Clawdd Offa yn digwydd ar hyn o bryd ac y dylai gael ei orffen ar amser. Mae hefyd yn y broses o glustnodi gwaith ar gyfer y flwyddyn nesaf.

- Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau (DPGG) mis Tachwedd wedi cychwyn, ac mae'n hapus am fod Llwybr Treftadaeth Clawdd Wat wedi'i agor yn swyddogol bellach.

Dywed Sion:
- Ei fod wedi treulio'r rhan fwyaf o'i amser yn ymdrin ag ôl-groniad o gwynion cyffredinol y mae'r Cyngor yn ei dderbyn ac yn cysylltu â chontractwyr. Mae mwy na hanner y gwaith sy'n rhan o'r DPGG wedi'i orffen gyda gweddill y gwaith i'w gwblhau cyn y Nadolig.

- Bydd contractwr yn dechrau clirio/brwsio amryw o lwybrau ar lethrau serth a grisiau cyn bo hir fel rhan o raglen aeaf cynnal a chadw hawliau tramwy'r cyhoedd.

Dywed Charlotte:
- Ers hysbysebu am wirfoddolwyr i gynorthwyo i gerdded y teithiau a hyrwyddir yn y sir cafwyd ymateb arbennig o dda. Mae bron bob un o'r teithiau a hyrwyddir wedi'u dyrannu i grwpiau cerdded fel rhan o Lwybr Clawdd Wat, ac rydym eisoes wedi derbyn atborth am nifer o deithiau cerdded. Yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf mae'n gobeithio derbyn mwy o atborth a dechrau gwella'r teithiau cerdded a hyrwyddir.

- Rydym hefyd yn nes at lansio ein tudalen gwe i wirfoddolwyr ar ein gwefan. Gobeithir y bydd lle arni y gall gwirfoddolwyr fynd i gael gwybodaeth ynghylch gwirfoddoli a beth y gallant ei wneud yn Wrecsam i gynorthwyo. Hefyd, rydym yn gobeithio cynnwys bwrdd negeseuon lle gall gwirfoddolwyr ryngweithio gyda'r naill a'r llall.

- Rydym wedi derbyn arolwg blwyddyn yn ôl gan syrfewyr yn ddiweddar a bellach nid oes gennym ond 7 cymuned heb eu dyrannu ac mae 11 yn dal yn y broses o gael arolwg.

43/08 Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Alun Price

44/08 Unrhyw Fater Arall

Shell Brook

Ni fu modd defnyddio'r bompren yn Shell Brook ger ei chymer â'r Ddyfrdwy ers y llifogydd yn hwyr yn 2007. Yn rhan o Lwybr Maelor, roedd y llwybr wedi'i ddargyfeirio dros dro ar y B5069, ffordd Owrtyn i St. Martin's.

Roedd Edward wedi derbyn copi o lythyr a gyfeiriwyd at Owen Paterson AS oddi wrth Valarie Beint, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol yng Nghyngor Sir Amwythig. Roedd yn adrodd bod y bont wedi'i chywiro am y tro a'i sicrhau â pholion gan wirfoddolwr lleol sydd hefyd wedi clirio'r ffordd at orllewin y bompren. Ateb dros dro yw'r bompren ar hyn o bryd. Bydd pont ddur yn cael ei gosod yn y flwyddyn ariannol nesaf. Roedd yn nodi nad yw'r llwybr i orllewin y bompren ar y map diffiniol a'u bod am gydweithio gyda pherchennog y tir i gael ei ychwanegu. Mae Gordon Emery, gwirfoddolwr lleol a'r un a anogodd sefydlu Llwybr Maelor yn parhau â'r broses ar ôl i'r gwaith dechreuol gael ei wneud gan Dave Smith ac mae pob parti'n bwriadu mynd â'r maen i'r wal gyda'r sefyllfa hirhoedlog hon.

45/08 Eitemau ar gyfer yr agenda nesaf

- Materion traws-ffiniol

46/08 Dyddiad a Lleoliad y Cyfarfod Nesaf

Dydd Gwener, 6 Chwefror 2009 am 1.30 pm yn Neuadd y Dref, Wrecsam